Llywodraeth Cymru
Welsh Government


# Fframwaith Ymgysylltu Amenedigol Cymru Gyfan

llyw.cymru

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| **3** | Cyflwyniad |
| **4** | Arweinyddiaeth, Diwylliant a’r Gweithlu |
| **6** | Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant |
| **8** | Gwrando (y capasiti a’r galluogrwydd i wrando ar fenywod, rhieni, teuluoedd a chymunedau) |
| **11** | Trefniadau Partneriaeth Lleisiau Mamolaeth a Newyddenedigol (MNVP) |
| **13** | Dadansoddi a thriongli |
| **14** | Defnyddio profiadau ac adborth pobl er mwyn helpu i wella ansawdd, datblygu gwasanaethau a dysgu yn barhaus |
| **15** | ‘Cau’r ddolen’, llywodraethu, adrodd a chyhoeddi |


*Mae’r termau menyw/menywod wedi cael eu defnyddio trwy’r fframwaith hwn gan mai dyma’r hunaniaeth a nodir gan y rhan fwyaf o’r rhai sy’n feichiog. Fodd bynnag, mae hefyd yn cynnwys y rhai nad yw eu hunaniaeth rhywedd yn cyfateb i’w rhyw adeg geni neu’r rhai a allai fod â hunaniaeth anneuaidd. Dylai pob gweithiwr proffesiynol barchu ac ymateb i anghenion unigol, a dylid gofyn i unigolion sut y maent yn dymuno cael eu cyfarch yn ystod eu gofal.*



**Mae’r ddogfen hon yn cyd-fynd â’r Datganiad Ansawdd ar gyfer Gwasanaethau Mamolaeth a Newyddenedigol, priodoledd 18.**

OGL © Hawlfraint y Goron 2025, Llywodraeth Cymru, WG50076, ISBN digidol 978-1-83715-302-2
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

# Cyflwyniad

Mae'r daith beichiogrwydd a geni yn newid bywydau ac mae'r gweithlu amenedigol yn cael y fraint o gefnogi menywod, rhieni a theuluoedd trwy'r cyfnod hwn. Trwy roi menywod a rhieni wrth wraidd yr holl benderfyniadau am y gofal a'r cymorth sy'n cael eu rhoi iddynt, nod gwasanaethau amenedigol yw darparu gwasanaeth diogel o ansawdd uchel. Mae cydweithio ac ymgysylltu gweithredol â menywod, rhieni a theuluoedd yn hanfodol er mwyn sicrhau llwyddiant, ac mae'r broses hon wedi'i chwmpasu yn **Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**.

Mae'r fframwaith ymgysylltu amenedigol yn amlinellu'r safonau gofynnol ar gyfer ymgysylltiad o ansawdd uchel â defnyddwyr gwasanaethau ledled Cymru, ac mae'n darparu manylion y 10 ymrwymiad y disgwylir i fyrddau iechyd eu gweithredu, y gofynion i gyflawni'r ymrwymiadau hyn a nodweddion gwasanaeth da.

Mae hyn yn sicrhau dull gweithredu teg a chynhwysol er mwyn sicrhau bod pob menyw, rhiant a theulu yn cael eu cynnwys bob cam o'u taith, i hwyluso gwelliannau mewn darparu gwasanaethau a llywio polisi.

# Arweinyddiaeth, Diwylliant a'r Gweithlu

Meithrin diwylliant o wrando gweithredol lle mae'r holl adborth yn cael ei werthfawrogi, ei hyrwyddo'n weithredol a'i ystyried yn hanfodol i wella gwasanaethau, a chynnal egwyddorion preifatrwydd, urddas a hawliau dynol. Bydd gwasanaethau amenedigol yn gweithio tuag at gydweithredu gwell, gan sicrhau bod teuluoedd yn chwarae rhan hanfodol mewn penderfyniadau wrth ddarparu gofal, er mwyn sicrhau'r canlyniadau a'r profiadau gorau posibl.

**Ymrwymiad 1:**
Bydd sefydliadau'n hyrwyddo diwylliant gwrando gweithredol sy'n cydnabod pwysigrwydd tosturi, empathi a charedigrwydd.
Mae'r gwerthoedd a'r ymddygiadau hyn yn cael eu mabwysiadu'n weithredol gan y gweithlu amenedigol cyfan (ar lawr gwlad hyd at lefel bwrdd) ac maent yn cael eu hadlewyrchu yn yr holl iaith a therminoleg a ddefnyddir i gyfathrebu â menywod, rhieni, teuluoedd a staff.

| Gofyniad i gyflawni'r ymrwymiad | Cyfrifoldeb awgrymedig | Bydd fydd nodweddion gwasanaeth da? |
|---|---|---|
| • Bydd hyfforddiant staff yn cynnwys:<br>- ymreolaeth a gofal sy'n parchu hawliau yn ystod genedigaeth<br>- cydsyniad, cydsyniad ar sail gwybodaeth a gwneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth<br>- diogelwch seicolegol, ffactorau dynol, gwarineb, rhyddid i siarad ac arweinyddiaeth dosturiol<br>- iechyd meddwl amenedigol a babanod.<br>• Defnydd cyson o'r **pecyn cymorth TrACE**.<br>• Defnydd cyson o'r **fframwaith gofal sy'n ystyriol o drawma**.<br>• Defnydd cyson o ganllawiau **prosiect Re:Birth yr RCM**.<br>• Defnydd cyson o ddarpariaeth gofal integredig i deuluoedd.<br>• Datblygu gwybodaeth a defnyddio offer ymarferol er mwyn helpu i wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth. | Byrddau Iechyd<br>AaGIC | Mae ymddygiad staff yn dosturiol, ac maen nhw'n gwrando ar fenywod, rhieni a theuluoedd gan sicrhau eu bod yn cyfrannu at y broses o wneud penderfyniadau.<br>Mae diwylliant y gweithle yn adlewyrchu egwyddorion gwarineb gyda gwybodaeth ac ymarfer sylfaenol mewn perthynas â diogelwch seicolegol.<br>Mae menywod, rhieni a theuluoedd yn disgrifio eu profiadau o wasanaethau amenedigol fel rhai cadarnhaol, ac mae gwerthoedd ac ymddygiad staff yn cynnal preifatrwydd, urddas a hawliau dynol.<br>Mae staff amenedigol yn gallu darparu cyngor a chymorth i fenywod, rhieni a theuluoedd er mwyn sicrhau'r lefel uchaf o les emosiynol ac iechyd meddwl. |

**Ymrwymiad 2:**
Bydd sefydliadau yn hyrwyddo diwylliant o bartneriaeth gyda'r menywod, y rhieni a'r teuluoedd sy'n defnyddio eu gwasanaethau amenedigol.

| Gofyniad i gyflawni'r ymrwymiad | Cyfrifoldeb awgrymedig | Bydd fydd nodweddion gwasanaeth da? |
|---|---|---|
| • Cyflogi nyrs profiad teulu a/neu fydwraig yn unol â'r cynllun gweithlu amenedigol.<br>• Defnyddio'r **offeryn hunanasesu NYTH** i gynorthwyo hunan-fyfyrio, gwreiddio cydgynhyrchu ac archwilio sut i weithio mewn partneriaeth â'r system ehangach.<br>• Achrediad Siarter Babanod Bliss. | Byrddau Iechyd | Mae gan sefydliadau ddarpariaeth briodol i gefnogi partneriaeth â menywod, rhieni a theuluoedd, gan hwyluso ymgysylltiad parhaus er mwyn sicrhau'r canlyniadau a'r profiadau gorau posibl. |

# Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant

Sicrhau bod gwasanaethau amenedigol yn deg, yn hygyrch ac yn gydradd i bawb er mwyn sicrhau'r canlyniadau a'r profiadau gorau posibl, gyda gweithlu sy'n cynrychioli'r boblogaeth y mae'n ei gwasanaethu. Er mwyn gwella safon a thegwch gofal iechyd, mae angen ymgysylltu'n weithredol â menywod, rhieni a theuluoedd sy'n cwmpasu'r holl nodweddion gwarchodedig, croestoriadedd a ffactorau cymdeithasol.
Credir bod cyfranogi, cydweithredu a chydgynhyrchu yn hanfodol er mwyn diwallu anghenion a bodloni gofynion penodol. Mae cysylltiadau ystyrlon, dibynadwy a thosturiol yn cael eu datblygu rhwng pobl sy'n derbyn gofal a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol, sy'n defnyddio dulliau creadigol a phwrpasol o hyrwyddo ymgysylltiad a sicrhau dealltwriaeth.

**Ymrwymiad 3:**
Mae gwasanaethau amenedigol yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n diwallu anghenion ac yn bodloni gofynion unigryw'r holl fenywod, rhieni, babanod a'u teuluoedd, a fydd yn ei dro yn helpu i sicrhau'r profiadau a'r canlyniadau gofal gorau.

| Gofyniad i gyflawni'r ymrwymiad | Cyfrifoldeb awgrymedig | Bydd fydd nodweddion gwasanaeth da? |
|---|---|---|
| • Datblygu dealltwriaeth o'r boblogaeth leol er mwyn sefydlu cysylltiadau â chymunedau, grwpiau a sefydliadau'r trydydd sector i hwyluso prosesau cydweithredu a chydgynhyrchu, gan ganolbwyntio ar gyrraedd y rhai sy'n wynebu rhwystrau i gynhwysiant:<br>- unigolion o gefndir Du, Asiaidd, ac ethnig leiafrifol a chymunedau Sipsiwn, Roma neu Deithwyr<br>- tadau, partneriaid a phartneriaid geni<br>- unigolion o'r gymuned LHDTC+<br>- unigolion sy'n byw gydag anabledd<br>- unigolion sy'n niwrowahanol<br>- unigolion sydd â hanes o broblemau iechyd meddwl neu drawma<br>- unigolion sy'n wynebu ffactorau ychwanegol (digartrefedd, amddifadedd a thlodi, menywod sy'n ceisio noddfa, menywod yn y carchar, y rhai sy'n derbyn cymorth gan wasanaethau plant).<br>• Casglu a dadansoddi gwybodaeth am ddemograffeg ac amrywiaeth ochr yn ochr â sylwadau am brofiadau er mwyn nodi unrhyw amrywiad a chefnogi gwaith gwella neu ymgysylltu parhaus.<br>• Cwblhau cynllun achredu cymhwysedd diwylliannol cydnabyddedig. | Gweithrediaeth y GIG, Byrddau Iechyd | Mae sefydliadau'n defnyddio dulliau arloesol o gyrraedd, cydweithio a chydgynhyrchu gyda menywod, rhieni a theuluoedd o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol mewn cymunedau lleol, gan feithrin perthnasoedd ystyrlon sy'n seiliedig ar ymddiriedaeth a pharch.<br>Mae sefydliadau yn deall anghenion, amrywiaeth a chroestoriadedd eu poblogaeth ac yn cymryd camau priodol i ddileu rhwystrau, hyrwyddo tegwch a lleihau gwahaniaethau.<br>Mae'r holl fenywod, rhieni a theuluoedd yn cael eu cefnogi a'u galluogi i gyfathrebu ac ymgysylltu â gwasanaethau amenedigol mewn ffordd ystyrlon sy'n hyrwyddo tegwch, ansawdd a diogelwch. |

| Gofyniad i gyflawni'r ymrwymiad | Cyfrifoldeb awgrymedig | Bydd fydd nodweddion gwasanaeth da? |
|---|---|---|
| • Hyfforddiant ymwybyddiaeth a chymhwysedd diwylliannol blynyddol gorfodol ar gyfer pob aelod o staff amenedigol.<br>• Datblygu a hyrwyddo grwpiau sy'n rhannu profiadau (cymheiriaid), yn benodol ar gyfer y rhai sydd â phrofiadau amrywiol (h.y. y rhai sy'n ceisio noddfa, sy'n derbyn gofal newyddenedigol neu sydd wedi dioddef profedigaeth).<br>• Sicrhau bod yr holl wybodaeth ar gyfer y cyhoedd ar gael mewn sawl iaith a'i bod yn cael ei chydgynhyrchu â phobl a chymunedau lle bynnag y bo modd. Rhaid i'r wybodaeth hon ddefnyddio iaith glir a syml a maint ffont priodol, gan sicrhau bod fersiynau hawdd eu darllen ar gael.<br>• Mae gwasanaethau dehongli a chyfieithu digonol ar gael, ac maent yn cael eu hyrwyddo a'u defnyddio'n gyson ar gyfer ystod eang o ieithoedd.<br>• Sicrhau'r lefel uchaf bosibl o hygyrchedd trwy ddefnyddio ciwiau gweledol a sicrhau capsiynau ac is-deitlau ar bob fideo.<br>• Sicrhau bod y defnydd o ddelweddau a straeon yn adlewyrchu amrywiaeth eang o safbwynt ethnigrwydd, math o gorff, oedran, strwythur teulu a hunaniaeth rhywedd.<br>• Sicrhau 'man diogel' lle gall lleisiau amrywiol rannu profiadau a hyrwyddo amgylchedd 'cynghreirio'.<br>• Cynyddu amrywiaeth y gweithlu er mwyn hyrwyddo ymgysylltiad cadarnhaol oherwydd yr hunaniaeth gyffredin.<br>• Dylid cydnabod a dathlu gwyliau, traddodiadau ac arferion diwylliannol sy'n gysylltiedig â mamolaeth a magu plant (gan osgoi stereoteipiau a rhagfarnau). | | |

**Ymrwymiad 4:**
Datblygu, cynnal a defnyddio rhestr bostio genedlaethol o randdeiliaid fel dull cyfathrebu ac ymgysylltu Cymru gyfan ar gyfer gwasanaethau amenedigol, gan gynnwys y rhai sy'n cynrychioli neu'n eirioli dros grwpiau â nodweddion gwarchodedig.

| Gofyniad i gyflawni'r ymrwymiad | Cyfrifoldeb awgrymedig | Bydd fydd nodweddion gwasanaeth da? |
|---|---|---|
| • Y Rhwydwaith Gwasanaethau Mamolaeth a Newyddenedigol Strategol i gytuno ar y prosesau llywodraethu a'r strwythurau ar gyfer y rhestr bostio rhanddeiliaid, yn ogystal â diffinio rôl a disgwyliadau'r aelodau.<br>• Bydd yr holl staff amenedigol yn annog menywod, rhieni, teuluoedd, sefydliadau'r trydydd sector ac aelodau'r cyhoedd i ymuno â'r rhestr bostio rhanddeiliaid.<br>• Sicrhau capasiti gweinyddol digonol i gefnogi prosesau cyfathrebu gweithredol parhaus ac adolygiadau rheolaidd o'r rhestr bostio rhanddeiliaid. | Y Rhwydwaith Gwasanaethau Mamolaeth a Newyddenedigol Strategol<br>Byrddau Iechyd | Prosesau cyfathrebu a chydweithio parhaus a gweithredol â menywod, rhieni a theuluoedd o bob grŵp mewn cymunedau lleol, a gydag ystod eang o randdeiliaid. |

# Gwrando (y capasiti a'r galluogrwydd i wrando ar fenywod, rhieni, teuluoedd a chymunedau)

Sicrhau bod gwasanaethau amenedigol yn ymroi i ofyn am farn menywod, rhieni a theuluoedd er mwyn llywio a gwella'r gwaith o ddatblygu a darparu gwasanaethau, gan ddefnyddio dulliau ymgysylltu gwahanol a strategaethau lleol i gyrraedd grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol.

**Ymrwymiad 5:**
Bydd sefydliadau yn sicrhau bod prosesau priodol ar waith i gasglu, coladu a dadansoddi pob math o adborth, gyda throsolwg ar gael i staff a'r cyhoedd drwy drefniadau adrodd cyson.

| Gofyniad i gyflawni'r ymrwymiad | Cyfrifoldeb awgrymedig | Bydd fydd nodweddion gwasanaeth da? |
|---|---|---|
| • Casglu adborth ar brofiad mewn fformatau amrywiol a datblygu a chyflwyno proses ar gyfer dadansoddiad systematig a thematig o'r canfyddiadau hyn.<br>• Cyflwyno'r Mesurau Profiad Amenedigol Cenedlaethol yn llawn ym mhob bwrdd iechyd yng Nghymru, gyda phrosesau monitro misol ac adrodd blynyddol i Weithrediaeth y GIG.<br>• Hyrwyddo'r broses **Gweithio i Wella** a'r **Ddyletswydd Gonestrwydd**.<br>• Sicrhau bod mecanwaith ar waith i dderbyn adborth gan fenywod a rhieni sydd wedi colli beichiogrwydd neu golli babi.<br>• Defnyddio dangosfyrddau lleol i fonitro a gweithredu ar adborth ansoddol a metrigau ansawdd eraill. Mae'r wybodaeth hon yn cyfrannu at ddangosfwrdd amenedigol Gweithrediaeth GIG Cymru. | Gweithrediaeth y GIG, Byrddau Iechyd | Mae gan sefydliadau fynediad at ddata profiad allweddol ac maent yn defnyddio'r wybodaeth hon i gael sicrwydd lefel uchel am berfformiad gwasanaethau, yn ogystal â sbarduno gwelliant gwasanaethau, sefydliadol a strategol. Mae system unedig i Gymru yn hwyluso prosesau meincnodi ar draws sefydliadau.<br>Mae pob menyw, rhiant a theulu yn teimlo'n hyderus am godi pryderon os ydynt yn wynebau problemau yn ystod eu gofal, ac mae'r sefydliad yn cymryd camau amserol i ymateb i'r pryderon hyn a nodi'r hyn y gellir ei ddysgu ohonynt.<br>Bydd cyfleoedd ar gael i fyfyrio ar eu gofal amenedigol, ei drafod a derbyn esboniadau clir amdano pan ofynnir am hynny. |

| Gofyniad i gyflawni'r ymrwymiad | Cyfrifoldeb awgrymedig | Bydd fydd nodweddion gwasanaeth da? |
|---|---|---|
| • Defnyddio dulliau cyfathrebu i addysgu, cefnogi ac ymgysylltu â menywod, rhieni a theuluoedd, gan gynnwys pobl o grwpiau nas clywir yn aml (h.y. cymunedau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol a'r rhai sydd wedi dioddef colled).<br>• Cynnig a darparu myfyrdodau geni i'r holl fenywod, rhieni a theuluoedd sy'n gweddu i lefel eu hangen.<br>• Darparu gwasanaethau ôl-drafodaeth cyson, amserol (dull amlddisgyblaethol lle bo angen).<br>• Sicrhau bod menywod, rhieni a theuluoedd yn cael y cyfle i fod yn gyfranogwyr craidd yn yr adolygiad o'r holl achosion o golli ffetws yn hwyr yn y feichiogrwydd, marw-enedigaeth, a marwolaethau mamau a babanod newyddenedigol gan ddefnyddio'r **Offeryn Adolygu Marwolaethau Amenedigol Cenedlaethol** (PMRT).<br>• Sefydlu'r defnydd o straeon pobl, cymunedau a staff ym mhob lefel o'r sefydliad, gan gyfrannu at Lyfrgell Straeon Digidol y GIG Cymru Gyfan trwy ddefnyddio pecyn cymorth Straeon Digidol y GIG. | | |

# Trefniadau Partneriaeth Lleisiau Mamolaeth a Newyddenedigol (MNVP)

Mae'r model MNVP yn rhoi blaenoriaeth i ddull partneriaeth annibynnol o gyd-gynhyrchu gwelliannau gwasanaeth rhwng menywod, rhieni, teuluoedd a'r gweithlu amenedigol, gyda chyfle i fonitro a gwerthuso gwasanaethau amenedigol ledled Cymru.

**Ymrwymiad 6:**
Bydd sefydliadau yn datblygu ac yn cynnal fforymau MNVP lleol sydd wedi'u hymwreiddio yn eu strwythurau llywodraethu ac yn cyfrannu at y fforwm MNVPC cenedlaethol.

| Gofyniad i gyflawni'r ymrwymiad | Cyfrifoldeb awgrymedig | Bydd fydd nodweddion gwasanaeth da? |
|---|---|---|
| • Cyllid penodedig, cylchol er mwyn cefnogi gweithgareddau MNVP gan gynnwys rolau'r Cadeirydd/Is-gadeirydd, swyddogaethau gweinyddol a chyllideb fach ar gyfer treuliau (h.y. ar gyfer costau teithio a llogi ystafelloedd).<br>• Bydd MNVPs yn datblygu ac yn cydgynhyrchu cynllun gwaith blynyddol sy'n cynnwys yr 'her pymtheg cam', ac yn cyhoeddi adroddiad blynyddol i ddangos pwyslais a chanlyniadau allweddol eu gwaith.<br>• Mae adnoddau digonol ar waith ar gyfer y gwaith gwella sydd ei angen i gefnogi cynlluniau gwaith MNVP.<br>• Mae MNVPs yn adrodd ar bob lefel yn y sefydliad, o lefel ward i lefel Bwrdd.<br>• Sicrhau bod cynrychiolaeth MNVP yn cynnwys:<br>- gofal newyddenedigol<br>- lleisiau tadau a phartneriaid nad ydynt yn rhoi genedigaeth<br>- profedigaeth<br>- iechyd meddwl amenedigol<br>- trawma geni<br>- bwydo babanod<br>- nodweddion amrywiol a gwarchodedig. | Byrddau Iechyd | Mae gwasanaethau amenedigol yn rhoi blaenoriaeth i ddull gweithredu partneriaeth sy'n canolbwyntio ar gyd-gynhyrchu, gwerthfawrogi pobl a datblygu eu cryfderau, datblygu rhwydweithiau a chanolbwyntio ar yr hyn sy'n bwysig i fenywod, rhieni, teuluoedd a chymunedau.<br>Mae prosesau llywodraethu cadarn ar waith, gan gynnwys adroddiadau rheolaidd ar adborth ar brofiad, gweithgareddau MNVP, a gweithgareddau MNVP ar bob lefel mewn sefydliadau. |

| Gofyniad i gyflawni'r ymrwymiad | Cyfrifoldeb awgrymedig | Bydd fydd nodweddion gwasanaeth da? |
|---|---|---|
| • Cynorthwyo Llywodraeth Cymru i ddatblygu a chadarnhau pecyn cymorth MNVP y cytunwyd arno a disgrifiad swydd ar gyfer cadeirydd lleyg er mwyn helpu i gyflwyno'r pecyn cymorth yn genedlaethol a lleihau amrywiad yn ei swyddogaeth.<br>• Defnyddio gwefannau presennol i gynnal tudalen sy'n cynnal ystorfa MNVP leol.<br>• Datblygu mecanweithiau i fonitro a gwerthuso adborth profiad ansoddol a meintiol sy'n gweithredu fel system rhybudd cynnar i nodi a gweithredu ar faterion a risgiau sy'n dod i'r amlwg trwy ddangosfwrdd amenedigol integredig. | Llywodraeth Cymru<br>Gweithrediaeth y GIG | |

**Ymrwymiad 7:**
Bydd Llais yn datblygu, yn cynnal ac yn cefnogi trefniadau fforwm Partneriaeth Lleisiau Mamolaeth a Newyddenedigol Cymru (MNVPC).

| Gofyniad i gyflawni'r ymrwymiad | Cyfrifoldeb awgrymedig | Bydd fydd nodweddion gwasanaeth da? |
|---|---|---|
| • Bydd Llais yn darparu goruchwyliaeth ac atebolrwydd cenedlaethol ar gyfer trefniadau MNVPC.<br>• Helpu i ddatblygu pecyn cymorth MNVP y cytunwyd arno a disgrifiad swydd ar gyfer cadeirydd lleyg er mwyn hwyluso'r broses o gyflwyno'r pecyn cymorth yn genedlaethol a lleihau amrywiad yn ei swyddogaeth. | Llais | Mae'r MNVPC cenedlaethol yn gweithredu fel fforwm i ddod â chadeiryddion MNVPs byrddau iechyd lleol at ei gilydd i gydweithio a gwella'r broses o ddarparu gwasanaethau.<br>Mae'r MNVPC cenedlaethol yn hwyluso mwy o atebolrwydd am ddarparu gwasanaethau lleol. Mae'n hyrwyddo strategaeth gydgynhyrchu sy'n gwerthfawrogi unigolion a phrofiadau amrywiol, gan ddatblygu rhwydweithiau a gweithredu y tu hwnt i ffiniau sefydliadol.<br>Mae'r MNVPC cenedlaethol yn helpu i sicrhau ansawdd a diogelwch gwasanaethau trwy weithredu fel system rhybudd cynnar sydd â'r gallu i 'wrando' ar brofiadau menywod, rhieni a theuluoedd a'u 'clywed'. |

# Dadansoddi a thriongli

Mae dull cadarn o ddadansoddi a dehongli data ansoddol a meintiol ar brofiad yn hanfodol er mwyn deall perfformiad gwasanaethau. Mae'n cydnabod pwysigrwydd y profiad gorau posibl ym maes gofal iechyd amenedigol ac yn sicrhau bod adborth yn cael ei ystyried ochr yn ochr ag ansawdd, diogelwch a data ar ganlyniadau er mwyn darparu gwybodaeth gynhwysfawr am ddarparu gwasanaethau.

**Ymrwymiad 8:**
Bydd pob math o ddata ar adborth a phrofiad yn cael ei driongli â mesurau ansawdd, canlyniadau a phrofiadau eraill wrth ystyried perfformiad gwasanaeth. Bydd yn cael ei gynnwys mewn adroddiadau ansawdd a sicrwydd ledled y gwasanaeth a'r sefydliad, ac mewn adroddiadau eraill i'r cyhoedd.

| Gofyniad i gyflawni'r ymrwymiad | Cyfrifoldeb awgrymedig | Bydd fydd nodweddion gwasanaeth da? |
|---|---|---|
| • Monitro, dadansoddi'n thematig ac adrodd ar yr holl adborth a geir gan gynnwys:<br>- adborth MNVP<br>- myfyrdodau/ôl-drafodaethau ar enedigaeth<br>- cwynion a phryderon ffurfiol ac anffurfiol<br>- canmoliaeth ffurfiol ac anffurfiol<br>- mesurau profiad amenedigol (holiaduron mamolaeth/newyddenedigol Cymru gyfan)<br>- mewnbwn ac adborth teuluoedd o brosesau ymchwilio i ddigwyddiadau<br>- grwpiau cymheiriaid.<br>• Mae data meintiol yn cael ei gyflwyno ar ffurf graffiau dros amser i ddarparu cynrychiolaeth weledol o dueddiadau. Gall hyn esgor ar rybuddion i nodi problemau a phryderon yn gyflym.<br>• Gweithredu'r dysgu thematig a'r argymhellion sy'n deillio o ddadansoddi adborth ar brofiad er mwyn ysgogi datblygiad gwasanaethau, gwelliannau a hyfforddiant staff.<br>• Sicrhau bod data wedi'i driongli ar adborth a phrofiad yn cael ei gynnwys mewn metrigau ac adroddiadau perfformiad cenedlaethol trwy drefniadau cyfarfodydd Ansawdd, Cynllunio a Chyflawni Integredig (IQPD). | Llais<br>Gweithrediaeth y GIG, Byrddau Iechyd | Mae gan sefydliadau gymorth dadansoddeg a gwybodaeth pwrpasol ar gyfer eu data ar brofiad amenedigol, sy'n cynhyrchu dadansoddiad thematig ac adroddiadau yn unol â dangosyddion ansawdd eraill. Defnyddir y mewnwelediadau hyn i nodi newid mewn perfformiad gwasanaethau yn effeithlon, gan hwyluso camau gweithredu prydlon i fynd i'r afael â materion sy'n dod i'r amlwg. |

# Defnyddio profiadau ac adborth pobl er mwyn helpu i wella ansawdd, datblygu gwasanaethau a dysgu yn barhaus

Datblygu a chynnal diwylliant dysgu sy'n seiliedig ar wella ansawdd a datblygiad parhaus. Sicrhau atebolrwydd trwy ymgorffori ymgysylltiad â menywod, rhieni a theuluoedd a dysgu o'u profiadau fel elfennau craidd darparu gwasanaeth o safon a llywio'r broses o ddatblygu a chreu gwasanaethau newydd yn y dyfodol.

**Ymrwymiad 9:**
Bydd sefydliadau yn ymwreiddio diwylliant o ddysgu o brofiadau, a fydd yn sylfaen i ddatblygu rhaglen barhaus o wella ansawdd a gwasanaethau.

| Gofyniad i gyflawni'r ymrwymiad | Cyfrifoldeb awgrymedig | Bydd fydd nodweddion gwasanaeth da? |
|---|---|---|
| • Penodi arweinydd gwella ansawdd sydd â goruchwyliaeth llywodraethu ac amser penodedig i ymgymryd â gweithgareddau gwella ansawdd a'u cydgysylltu, gyda chymorth capasiti dadansoddol priodol.<br>• Sicrhau bod yr holl staff amenedigol sy'n ymgymryd â mentrau gwella ansawdd yn cael cyfle ac amser i gwblhau hyfforddiant gwella ansawdd.<br>• Mynd ati i gynorthwyo a galluogi staff amenedigol i ymgymryd â gweithgareddau gwella ansawdd, mewn partneriaeth â menywod, rhieni a theuluoedd. | Byrddau Iechyd<br>AaGIC | Mae sefydliadau yn meithrin diwylliant a system ddysgu sy'n seiliedig ar fentrau gwella ansawdd a gwasanaethau, yn ogystal â dysgu o brosesau ymgysylltu â menywod, rhieni a theuluoedd a'u profiadau.<br>Mae cynlluniau gwella ansawdd yn cael eu datblygu a'u cyflwyno mewn ymateb i'r adborth gan fenywod, rhieni a theuluoedd sy'n defnyddio gwasanaethau amenedigol.<br>Gofynnir am safbwyntiau menywod, rhieni a theuluoedd mewn ffordd ragweithiol drwy MNVPs wrth ddatblygu mentrau gwella ansawdd ehangach ledled gwasanaethau amenedigol. |

# ‘Cau’r ddolen’, llywodraethu, adrodd a chyhoeddi

Adrodd a chyhoeddi data yn rheolaidd ar brofiadau amenedigol a chydweithio â rhanddeiliaid er mwyn creu cynlluniau gwella ansawdd a datblygu gwasanaethau strategol. Bydd y newidiadau sy’n deillio o’r adborth gan fenywod, rhieni a theuluoedd yn cael eu rhannu’n eang â chymunedau i ddangos pwysigrwydd rhannu profiadau personol a sut mae sefydliadau’n ymateb i adborth amenedigol.

**Ymrwymiad 10:**
Bydd gan sefydliadau brosesau ar waith i sicrhau bod gwasanaethau yn gwrando ac yn ymateb i adborth, a bod y cyhoedd yn cael gwybod sut mae eu profiadau wedi dylanwadu ar newid yn unol â’r **Ddyletswydd Ansawdd**.

| Gofyniad i gyflawni’r ymrwymiad | Cyfrifoldeb awgrymedig | Bydd fydd nodweddion gwasanaeth da? |
|---|---|---|
| • Ymwreiddio prosesau llywodraethu cadarn er mwyn adolygu, dadansoddi, adrodd a dangos beth sydd wedi’i ddysgu o’r ymgysylltu. Dylai’r broses hon sicrhau adroddiadau i’r Bwrdd.<br>• Dylai gwasanaethau amenedigol ddefnyddio ystod o ddulliau i gau’r ddolen a rhoi adborth i deuluoedd am sut mae eu profiadau wedi arwain at newidiadau.<br>• Datblygu mecanweithiau i gynorthwyo cyfathrebu rheolaidd (trwy’r rhestr bostio) yn ymwneud â datblygu a gwella gwasanaethau yn strategol o ganlyniad i adborth lleol a chenedlaethol ar brofiadau menywod, rhieni a theuluoedd. | Byrddau Iechyd | Mae sefydliadau wedi ymgorffori mecanweithiau i ddarparu adborth i fenywod, rhieni a theuluoedd ar wella gwasanaethau yn barhaus o ganlyniad i wrando ar eu profiadau bywyd. |